



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaeth Gofal Môn

**Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/09/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gwasanaeth Gofal Môn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn
Lleuedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	13 Chwefror 2023
Chwefror 2023	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir. Cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal, a chânt eu trin fel unigolion ac mewn ffordd barchus. Caiff y gweithwyr gofal eu harwain gan gynlluniau personol cyfredol, sy'n cofnodi'n fanwl y gofal sydd ei angen ar bob unigolyn a sut y dylid ei gefnogi. Darperir y gofal cywir yn gyson, sy'n golygu bod y bobl yn cyflawni eu canlyniadau. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cyd-dynnu'n dda iawn â'u gweithwyr gofal. Mae'r uwch-reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwybodol o sefyllfa pob unigolyn ac yn gyfarwydd â'r cymorth a ddarperir. Mae hyn yn golygu y gall y bobl fod yn hyderus bod rheolwyr yn goruchwyllo'r gwasanaeth y maent yn ei gael.

Caiff y gweithwyr gofal eu cyflogi'n ddiogel, maent yn cael hyfforddiant perthnasol, a chânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Cânt eu defnyddio mewn niferoedd digonol ac maent yn gweithio'n dda fel tîm i roi gofal parhaus i'r bobl. Mae rhai o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer, felly maent yn brofiadol iawn. Mae trefniadau arwain cadarn ar waith, sy'n monitro effeithiolrwydd y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'n awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus ac i ddiwallu anghenion y bobl wrth iddynt newid.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau. Gwneir ymdrech i sicrhau y caiff y bobl eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth. Dywedodd y bobl wrthym y gallant wneud dewisiadau ynghylch eu gofal a'u bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod am barhau i wneud cymaint â phosibl drosto'i hun, am gyhyd â phosibl, gan fod hyn yn bwysig iawn iddo. Dywedodd fod y gweithwyr gofal yn parchu ei ddymuniadau, a'u bod yn darparu'r lefel gywir o gymorth pan fo angen hynny. Caiff gofal ei ddarparu yn y modd y mae pob unigolyn am gael ei gefnogi. Gall y gweithwyr gofal gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am anghenion y bobl ac maent yn gofyn i'r bobl sut yr hoffent gael cymorth. Mae'r bobl yn dweud bod y gofal maent yn ei gael yn *"Ardderchog"*.

Caiff y gofal a'r cymorth cywir eu darparu, sy'n cael effaith sylweddol ar lesiant y bobl. Gwnaeth llawer o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym fod y gwasanaeth yn eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, am gyhyd â phosibl. Gwnaethant ddweud wrthym: *"Heb nhw swm i mewn cartref"*, *"They make a big difference, I'm able to stay at home"* a *"Couldn't manage without them"*. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gofal a ddarperir yn golygu y gallant barhau yn eu rolau fel gofalwyr, a gwnaethant ganmol safon y gofal a ddarperir. Mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r hyfforddiant y maent wedi'i gael i ddarparu gofal o safon uchel, a chânt eu cefnogi yn eu rolau gan uwch-aelodau o'r staff a rheolwr. Mae'r darparwr yn gwirio'n rheolaidd a yw'r bobl yn fodlon ar ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael, ac yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-aelodau o'r staff a'r rheolwr. Mae darparwr y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir, drwy weithio gyda rhanddeiliaid eraill, fel y gall y gwasanaeth addasu i ddiwallu anghenion y bobl wrth iddynt newid.

Mae'r bobl yn hapus. Gwelsom fod cydberthnasau cadarnhaol rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Gwnaethant ddweud wrthym fod y gweithwyr gofal yn *"Ffeind iawn"*, *"Very friendly"*, *"They're part of the family"* ac *"I'm relieved to see them, lovely people"*. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn gwerthfawrogi'r cymorth emosiynol a gafodd gan y gweithwyr gofal yn ystod cyfnod anodd yn ei fywyd. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn ymddiried yn y gweithwyr gofal a'u bod yn gallu dibynnu arnynt i ofalu am eu hanwyliaid. Gwelsom fod y bobl sy'n byw mewn lleoliadau byw â chymorth yn cael eu hannog i ddysgu sgiliau newydd, i fod mor annibynnol â phosibl ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn eu cymunedau lleol. Caiff pobl sydd wedi colli eu hannibyniaeth dros dro eu cefnogi i adfer eu galluoedd blaenorol, fel na fydd angen gwasanaeth arnynt yn yr hirdymor. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y gallant godi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Maent yn dweud bod y gweithwyr gofal, yr uwch-aelodau o'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt.

Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys, a chânt eu hystyried gan y rheolwr cyn y caiff gwasanaeth ei gynnig. Gwelsom fod gwybodaeth am anghenion y bobl, yr hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch, yn dod i law i ddechrau gan weithwyr proffesiynol sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn. Caiff gwybodaeth fanylach ei chasglu wrth yr unigolyn a'i deulu. Mae hyn yn golygu bod y rheolwr yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn. Caiff anghenion cymorth y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, a chaiff yr unigolyn a'i deulu eu cynnwys yn y broses, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae cynlluniau personol yn cofnodi anghenion gofal penodol pob unigolyn a sut y dylid eu diwallu. Mae'r dogfennau'n dangos y gofynnir i'r bobl sut yr hoffent gael cymorth a chaiff eu dewisiadau eu cofnodi. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn eu cynlluniau personol a gwnaethant gadarnhau bod y gweithwyr gofal yn gyfarwydd â'u dewisiadau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn darllen cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl cyn dechrau gweithio gyda phob unigolyn, hyd yn oed pan fo angen pecyn gofal newydd ar fyr rybudd. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn unol â chynlluniau personol y bobl. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd asesiadau symud a chodi a chario yn cynnwys digon o fanylion am sut y caiff niwed posibl i'r bobl a'r gweithwyr gofal ei reoli. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd a bod gwelliannau wedi'u gwneud.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi diogelu ar gael sy'n unol â'r canllawiau diogelu cenedlaethol cyfredol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Dangosodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom eu bod yn hyderus o ran pa gamau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon mewn perthynas â llesiant y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt.

Gall y bobl gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei chydnabod fel agwedd bwysig ar hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Gall y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal siarad Cymraeg, sy'n golygu y gall y bobl fynegi eu barn a'u teimladau yn eu dewis iaith. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar yr agwedd hon ar y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal sy'n dysgu Cymraeg wrthym eu bod yn defnyddio'r iaith gymaint ag y gallant wrth gefnogi pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn cael hyfforddiant perthnasol, a chânt eu cefnogi'n dda. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cynnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth ac maent yn gweithio shifftiau cysgodi ochr yn ochr â staff mwy profiadol i ddechrau. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod y gweithwyr gofal yn aros i gael rhywfaint o'u hyfforddiant gorfodol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd a bod gwelliannau wedi'u gwneud. Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant perthnasol wrth iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth, a'u bod hefyd yn cael hyfforddiant gloywi gorfodol rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod yr hyfforddiant yn ddigonol i'w paratoi ar gyfer eu rolau ac i gynnal eu sail wybodaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr uwch-aelodau o'r staff a'r tîm rheoli. Mae rhai ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer, felly maent yn brofiadol. Gwelsom fod sesiynau goruchwyllo un i un rhwng y gweithwyr gofal a'u rheolwr yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfarfodydd hyn yn fuddiol. Mae darparwr y gwasanaeth wedi darparu ceir i'r gweithwyr gofal eu defnyddio wrth deithio rhwng eu hymweliadau, fel ffordd o werthfawrogi ei staff.

Mae nifer digonol o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion a nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym y gofynnir iddynt am yr amseroedd y byddai'n well ganddynt gael ymweliad gan y gweithwyr gofal. Gwnaethant gadarnhau bod y gweithwyr gofal yn cyrraedd ar yr amser o'u dewis, oni bai bod sefyllfa annisgwyl yn golygu y byddent yn cyrraedd ychydig yn hwyrach. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt ddigon o amser i ddarparu'r cymorth gofynnol yn ystod pob galwad, ac i deithio rhwng pob galwad. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn cymryd eu hamser wrth roi cymorth ac nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro mewn unrhyw ffordd. Caiff staff asiantaeth eu defnyddio i gyflenwi pan fo prinder staff annisgwyl, i sicrhau bod y bobl yn cael gofal parhaus.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio er budd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cofnodion yn dangos y gofynnir i'r bobl, a'u perthnasau, yn rheolaidd am eu hadborth ar eu boddhad â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion a all fod ganddynt, eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt, a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i siarad ag uwch-aelodau o'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol.

Gwelsom sawl enghraifft o'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu a'i addasu i ddiwallu anghenion newidiol y bobl. Er enghraifft, mae tîm o weithwyr gofal ar gael dros nos i roi cymorth i'r bobl y mae angen y gwasanaeth hwn arnynt. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod, ar ran darparwr y gwasanaeth, yn gweithio gyda chynrychiolwyr y bwrdd iechyd i nodi ffyrdd newydd o addasu'r modd y caiff pobl eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Y nod yw gwella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Caiff ffyrdd newydd a gwahanol o recriwtio pobl i weithio yn y gwasanaeth eu defnyddio, megis cyflogi myfyrwyr sy'n astudio am gymwysterau gofal cymdeithasol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
15	Nid yw'r asesiadau risg yn cynnwys digon o fanylion am y risgiau posibl i'r staff a'r bobl a gefnogir o'r defnydd o gyfarpar codi a chario wrth gyflawni tasgau gofal a sut bydd y risgiau hyn yn cael eu lleihau.	Cyflawnwyd
36	Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol yn ystod eu cwrs sefydlu, ond mae cyfnod sawl cwrs wedi dirwyn i ben.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 31/10/2024